



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aseiad Hawliau Plant: Rhaglen i drawsnewid gofal a gynlluniwyd a lleihau amseroedd aros, Ebrill 2022

Cyhoeddwyd gyntaf: 26 Ebrill 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 26 Ebrill 2022

CYNNWYS

Asesiadau Effaith Llawn.....	3
A. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant	3

ASESIADAU EFFAITH LLAWN

A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Rhaid anfon yr holl Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi eu cwblhau i flwch CRIA@llyw.cymru

1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

Mae'r ddogfen *Ein rhaglen ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal a gylluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru* yn ymdrin â phlant a phobl ifanc fel grŵp ar wahân mewn sawl man.

Mae'r ddogfen yn cyfeirio at ddadansoddiad o asesiadau o'r effaith ar hawliau plant, a gynhaliwyd ar amrywiaeth o bolisïau yn ystod 2020, a oedd yn tynnu sylw at y ffaith mai ar yr un grwpiau o blant agored i niwed yr effeithir yn negyddol yn aml pan fydd y polisïau hyn yn cael eu rhoi ar waith. Nid yw effaith COVID-19 yn wahanol; er enghraifft, dyma'r rhai yr effeithir fwyaf arnynt:

- Plant agored i niwed a phlant ifanc
- Plant ag anghenion dysgu ychwanegol
- Plant Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig
- Dysgwyr cyfrwng Cymraeg nad yw'r Gymraeg yn iaith eu haelwyd
- Y rheini sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol
- Plant dan anfantais – gan gynnwys y rhai sydd heb le yn yr awyr agored
- Y rheini a allai wynebu oedi datblygiadol.

Yn yr un modd, mae'r ddogfen yn cydnabod gwaith a wnaed gan y Comisiynydd Plant a oedd yn edrych ar brofiad plant a phobl ifanc o'r cyfyngiadau symud. Y pethau a oedd yn effeithio fwyaf ar y ffordd y mae plant a phobl ifanc yn teimlo oedd nad oeddent yn gallu treulio amser gyda ffrindiau, nad oeddent yn gallu gweld y teulu a bod yr ysgol neu'r coleg ar gau. Torrwyd ar draws addysg ac astudiaethau plant a phobl ifanc o bob oed hefyd mewn ffordd nas gwelwyd ers cenedlaethau. Mae hyn yn destun pryder arbennig o ran plant o gefndiroedd difreintiedig, sydd eisoes yn cyflawni llai ar gyfartaledd na'u cyd-ddisgyblion mwy cefnog.

Pan fydd ysgolion yn cau, nid yw plant a phobl ifanc yn gallu dod o hyd i le diogel i ffwrdd oddi wrth drais yn y cartref - yn drais uniongyrchol neu o ran gweld trais yn erbyn pobl eraill - ac mae'r galwadau i linellau cymorth yng Nghymru wedi cynyddu dros 50% mewn rhai ardaloedd. Yn ôl y Cenhedloedd Unedi, nid plant yw wyneb y pandemig hwn, ond mae perygl y byddant ymhlith y dioddefwyr pennaf. Er eu bod, diolch byth, wedi cael eu harbed i raddau helaeth rhag effeithiau iechyd uniongyrchol COVID-19 – hyd yma o leiaf – mae'r argyfwng yn cael effaith ddogfn ar eu llesiant.¹

Mae ymchwil gan Brifysgol Rhydychen yn dangos y gallai effaith y pandemig ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc fod yn sylweddol. Mae rhagor o

¹ (https://www.un.org/sites/un2.un.org/files/policy_brief_on_covid_impact_on_children_16_april_2020.pdf)

wybodaeth am yr effaith ar blant a phobl ifanc ar gael yn y [Coronafeirws a chanlyniadau fi](#).

Mae Ein rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru yn ailbwysleisio'r angen i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol ystyried anghenion plant a phobl ifanc wrth i'r gwasanaethau y bydd eu hangen arnynt gael eu hadeiladu'n gryfach.

Mae Ein rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru yn ymdrin â'r boblogaeth gyfan ac felly mae plant yn cael eu cynnwys yn y gofynion ond cyfeirir atynt yn arbennig pan fo hynny'n berthnasol.

Cydnabyddir bod plant a phobl ifanc wedi cael eu heffeithio'n sylweddol a bod angen gwneud mwy i sicrhau bod eu pryderon iechyd meddwl yn cael sylw'n gyflym. Bydd gwerthoedd, egwyddorion a chamau gweithredu *Cymru lachach* yn darparu'r cyd-destun wrth inni symud drwy gam nesaf yr ymateb i'r pandemig ac at adferiad.

Rydym wedi manteisio ar y cyfle i adolygu a chreu camau gweithredu newydd o dan *Cymru lachach* er mwyn adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig COVID-19 a'r heriau sydd o'n blaenau o ran adferiad. Mae un o'r camau gweithredu newydd yn cynnwys canolbwyntio ar blant a phobl ifanc.

Rydym yn cydnabod bod plant a phobl ifanc yn rhan o deuluoedd ehangach ac y byddant wedi cael eu heffeithio, ac yn parhau i gael eu heffeithio, gan effaith COVID-19 ar eu rhieni, eu neiniau a'u teidiau, eu gofalwyr a'u cymdeithas ehangach. Fodd bynnag, mae nifer o gamau gweithredu o ran yr ymateb sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn benodol wedi'u nodi megis:

- Llwybr amlasiantaeth clir ar gyfer Gofal mewn Argyfwng, gan gynnwys i Blant a Phobl Ifanc
- Sicrhau bod Fframwaith Cymorth Cynnar a Chymorth Estynedig y Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc yn cael ei roi ar waith drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Rhaid cynyddu cyfran y cyllid sy'n cael ei wario ar blant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl, oherwydd deallir bod 80% o faterion iechyd meddwl yn dechrau yn ystod y cyfnod hwnnw mewn bywyd
- Mae amseroedd aros ar gyfer y gwasanaethau i blant wedi'u nodi fel ffynhonnell ddata ar wahân i sicrhau bod amseroedd aros yn gymesur ac yn gyfartal ar draws pob cymuned yng Nghymru.

Mae gweithredu gwasanaethau hanfodol i blant o bob oed yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae *Ein rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru* yn rhoi cyfeiriad strategol clir sy'n cefnogi:

- Gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio o amgylch yr unigolyn ac o amgylch grwpiau o bobl, yn seiliedig ar eu hanghenion unigryw a'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn ogystal â chanlyniadau ansawdd a diogelwch.
- Dim ond pan fo hynny'n hanfodol y dylai pobl fynd i ysbyty cyffredinol – dylai gwasanaethau ysbyty gael ei cynllunio i leihau'r cyfnod a dreulir yn yr ysbyty.

- Symud adnoddau i'r gymuned fel bod modd cael gafael ar ofal mewn ysbyty yn gyflymach, pan fo'i angen;
- Defnyddio technoleg i gefnogi gwasanaethau o ansawdd uchel.

Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn ogystal â'u rhieni a'u gofalwyr. Bydd cymorth ar gael i blant a phobl ifanc yn nes gartref, a thrwy wasanaethau sy'n haws iddynt gael gafael arnynt.

Disgwylir i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol ymgysylltu a gweithio'n agos gyda'u defnyddwyr gwasanaethau i sicrhau'r canlyniadau iechyd a lles gorau posibl i blant a phobl ifanc.

2. Eglurwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Bwriad *Ein rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru* yw cael effaith gadarnhaol ar nifer o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn enwedig:

Erthygl 6: Yr hawl i fywyd ac i dyfu i fod yn iach

Erthygl 19: Yr hawl i beidio â chael ei niweidio ac i gael gofal, a'i gadw'n ddiogel

Erthygl 20: Yr hawl i dderbyn gofal os nad yw'r plentyn yn gallu byw gyda'i deulu ei hun

Erthygl 23: Yr hawl i ofal arbennig a chymorth os yw'r plentyn yn anabl, fel y gall fyw byw llawn ac annibynnol

Erthygl 24: Yr hawl i fwyd da a dŵr ac i weld meddyg os yw'n sâl

Erthygl 25: Hawl plentyn nad yw'n byw gyda'i deulu i gael rhywun i wneud yn siŵr ei fod yn ddiogel yn gyson

Erthygl 39: Yr hawl i gael cymorth arbennig os yw'm cael ei gam-drin

O ran cyd-destun, mae'n bwysig ein bod yn glir bod y ddogfen hon yn pennu cyfeiriad lefel uchel ar gyfer adferiad cyffredinol y system iechyd a gofal cymdeithasol ac na fwriedir iddi ailadrodd na negyddu'r polisiau penodol a'r chfarwyddiadau Gweinidogol sydd eisoes ar waith. Rhan o swyddogaeth *Ein rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru* yw rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ein bod yn gweithio gyda'n gilydd ledled y wlad i gadw Cymru'n ddiogel, ac mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc.

Mae ein rhaglen yn atgyfnerthu'r angen i gynnal gwasanaethau hanfodol ac ailadeiladu gwasanaethau fel rhan o adferiad ac ailadeiladu. Mae hyn yn hollbwysig i blant a phobl ifanc yn benodol, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y cymorth a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt, a hynny ar gyfer eu llesiant corfforol neu feddyliol.

Dylai pobl allu cael gafael ar wasanaethau mewn ffyrdd newydd yn fwy digidol ac yn nes eu cartrefi, gan ddechrau yn y gymuned. I lawer o blant a phobl ifanc, mae'r rhyngweithio y maent wedi'i gael drwy ddulliau digidol dros y 24 mis diwethaf wedi bod yn fwy cefnogol na dulliau traddodiadol. Mae angen mabwysiadu a chryfhau'r dull hwn. Fodd bynnag, bydd angen cefnogi'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, boed hynny ar gyfer yr achosion o COVID-19 yn unig neu'n ehangach mewn cymdeithas. Bydd angen sicrhau bod plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a gofalwyr yn gallu cael gafael ar y sgiliau angenrheidiol i ddefnyddio gwasanaethau digidol. Felly, ar y cychwyn, mae'n bosibl y bydd effaith negyddol, o ran cael gafael ar wybodaeth, ar rai plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tloedi neu sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, ac nad oes ganddynt fynediad at fand eang.

Mae *Ein rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru* yn nodi amrywiaeth o feysydd y mae angen i sefydliadau'r GIG, a'u gofal cymdeithasol, fod yn ymwybodol ohonynt wrth gynllunio. Er nad oes adran benodol ar blant, mae disgwyl i sefydliadau partner gynllunio a darparu gwasanaethau priodol i blant a phobl ifanc yn unol â'u dyletswyddau statudol. Mae ein rhaglen yn cydnabod pwysigrwydd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb, drwy amrywiaeth o ddulliau (gan gynnwys cynadleddau i'r wasg, teledu, radio, papurau newydd a chyfryngau cymdeithasol) ynghylch sut y bydd gwasanaethau gofal a gynlluniwyd yn cael eu datblygu a'u defnyddio ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys cyfryngau a chymorth sy'n addas i blant, a fydd yn cael eu rheoli drwy ysgolion a sefydliadau addysgol (ee meithrinfeydd a sefydliadau addysg bellach., meithrinfeydd ac addysg bellach). Mae'r ddogfen hefyd yn gyfle i Weinidogion gyfathrebu â'r cyhoedd a rhoi sicrwydd iddynt ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi adferiad cynaliadwy i'n gwasanaethau iechyd yng Nghymru.